**CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**TÎM COMISIYNU**

**Adroddiad Monitro Contract**

| | |
|---|---|
| **Enw/Cyfeiriad y darparwr:** | **Abacare** |
| **Dyddiad yr ymweliad:** | **15 Chwefror a 27 Chwefror 2023** |
| **Swyddog(ion) Ymweld:** | **Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau** |
| **Presennol:** | **Sam Price, Rheolwr Cangen**<br>**Sarah Jessica – Goruchwyliwr Gofal o Ansawdd** |

## 1. Cefndir

1.1 Mae Abacare wedi bod yn ddarparwr cofrestredig gwasanaethau gofal cartref ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ers mis Rhagfyr 2018. Ar adeg yr ymweliad, roedd y sefydliad yn darparu tua 239 awr o ofal a chymorth yr wythnos i 25 o unigolion.

1.2 Mae Abacare yn darparu amrywiaeth o gymorth, sy'n cynnwys gofal personol (e.e. cymorth gyda chael bath, ymolchi, gwisgo, rhoi meddyginiaeth, gofal personol), gofal maethol (e.e. cymorth gyda bwyta ac yfed, paratoi bwyd a diod, a monitro faint o fwyd a diod mae'r cleient yn ei gael), gofal symudedd (e.e cymorth i fynd i mewn ac allan o'r gwely, symudiad cyffredinol), a gofal domestig (e.e cymorth gyda glanhau, siopa, gwaith tŷ arall, trefnu apwyntiadau).

1.3 Cynhaliwyd yr ymweliad monitro contract diwethaf ym mis Chwefror 2020, ychydig cyn pandemig COVID-19. Felly, dyma'r ymweliad cyntaf ers y pandemig; fodd bynnag, bu cyswllt rheolaidd dros y ffôn â'r holl ddarparwyr ar y pryd. Hoffai'r swyddog monitro ddiolch i'r staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod yr adeg eithriadol ac am gefnogi darparwyr eraill pan gawsant anawsterau.

1.4 Ymwelodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â'r darparwr yn 2022 ac mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r ymweliad, gan gwmpasu pob un o'r tri maes gwasanaeth a ddarperir gan Abacare yng Nghaerffili, Torfaen a Blaenau Gwent. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan AGC.

1.5 Yn dibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, bydd y darparwr yn cael camau unioni a datblygiadol i'w cwblhau. Camau unioni yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (fel y'u rheolir gan y contract, deddfwriaeth ac ati), ac mae camau datblygiadol yn argymhellion arfer da.

## 2. Codwyd camau unioni/datblygiadol blaenorol yn ystod ymweliad 2020.

2.1 Unioni

2.1.1 Mae'r cynllun personol cychwynnol a'r cynllun personol diwygiedig i'w cyd-gynhyrchu gyda'r unigolyn ac unrhyw gynrychiolydd - Rheol 15 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus ar gyfer cwsmeriaid newydd a chyfredol y gwasanaeth. **Wedi'i gyflawni**

2.1.2 Cynlluniau personol i ystyried y manylion a gofnodwyd yn y cynllun gofal a chymorth a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol – Rheol 15 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

2.1.3 Cynlluniau Personol i'w hadolygu yn ôl yr angen ond o leiaf bob tri mis – Rheol16 RISCA
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

2.1.4 Sicrhau bod Gweithwyr Gofal yn deall pwysigrwydd uwch gyfeirio unrhyw bryderon o ran diet unigolyn neu golli pwysau neu ennill pwysau.
Sicrhau lle bo'n briodol bod cymeriant bwyd/prydau/byrbrydau a/neu hylifau'r Unigolyn yn cael ei ddogfennu'n briodol ac yn gyson i gyfrannu at fonitro lles ac iechyd yr Unigolyn – Cytundeb Gofal Cartref ar y Cyd BG a CBSC (9.3)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

2.1.5 Dylai'r Darparwr Gwasanaeth sicrhau bod Gweithwyr Gofal yn cwblhau'r cofnod dyddiol ym mhob ymweliad a bod y cofnodion hynny yn ffeithiol, yn ddarllenadwy, ac yn ddigon manwl. Dylai'r recordiadau gael eu llofnodi a'u dyddio gan Weithwyr Gofal ac ni ddylent fod yn ailadroddus. Cytundeb Gofal Cartref ar y Cyd BG a CBSC (16.12)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.

2.1.6 Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau ar waith i sicrhau bod unigolion yn cael gofal parhaus sy'n rhesymol i fodloni anghenion gofal a chymorth – Rheol 22 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a Chontract Gofal Cartref ar y Cyd BG a CBSC (8.8)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

2.1.7 Hanes cyflogaeth lawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. - Rheol 35 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

2.1.8 Rhaid i'r amser a neilltuir ar gyfer amser teithio fod yn ddigonol o ystyried (a) y pellter rhwng lleoliad un ymweliad a drefnwyd a'r ymweliad nesaf a drefnwyd; ac (b) unrhyw ffactorau eraill y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddant yn effeithio ar amser teithio, megis tagfeydd traffig ac argaeledd lleoedd parcio

yn lleoliad yr ymweliadau a drefnwyd – Rheol 41 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

2.1.9 Dylai'r Darparwr Gwasanaeth sicrhau bod Gweithwyr Gofal yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod i Uwch Aelod o staff neu'r swyddfa am y newidiadau gofynnol yn hyd yr alwad – Cytundeb Gofal Cartref ar y Cyd BG a CBSC (16.12)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Wedi'i gyflawni**

## 3 Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig

3.1 Pe bai'r Unigolyn Cyfrifol yn absennol neu'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau oherwydd absenoldeb, byddai uwch dîm arweinyddol y darparwr (Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Ansawdd y Grŵp, Prif Swyddog Gwybodaeth, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Grŵp a Chyfarwyddwr Grŵp Polisïau a Chyfathrebu) yn penodi unigolyn naill ai o Dîm Ansawdd y cwmnïau neu un o'r rheolwyr rhanbarthol yng Nghymru i gymryd cyfrifoldeb am oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth gan sicrhau bod Rheoliadau 16 i 20 yn dal i gael eu bodloni. Pe bai'r Rheolwr Cangen yn absennol, byddai'r Rheolwr Ardal Rhanbarthol yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r gwasanaeth tan y gallai'r rheolwr ddychwelyd, os byddai hyn yn absenoldeb hirdymor yna byddai rheolwr dros dro addas yn cael ei leoli yn y gwasanaeth.

3.2 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae Leigh Brown yn y broses o gofrestru fel yr Unigolyn Cyfrifol.

3.3. Mae'r Datganiad o Ddiben yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid yw wedi'i newid i adlewyrchu Leigh Brown fel yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r darparwr yn aros am gadarnhad gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Roedd y Datganiad o Ddiben i'w adolygu ym mis Ionawr 2023. Caiff y dogfennau eu hadolygu bob 6 mis. Gofynnwyd i'r ddogfen gael ei rhannu gyda'r Awdurdod Lleol unwaith y bydd y cofrestriad wedi'i gadarnhau a'r Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddaru.

3.4 Cafodd y Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth ei ddiweddaru diwethaf ym mis Mai 2022. Canfuwyd bod y Polisi a'r Gweithdrefnau yn gyfredol, gyda Mynediad a chychwyn y gwasanaeth. Mae cynorthwyo unigolion i reoli eu harian, cwynion a Chwythu'r Chwiban yn cael eu hamserlennu ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu neu y bwriedir eu hadolygu ym mis Mai 2023.

3.5 Arsylwyd adolygiad 6 mis o Ansawdd Gofal ar gyfer Chwefror-Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r angen i ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn cael adborth personol ar y gwasanaeth a ddarperir ac a dderbyniwyd. Mae'r adroddiad yn cynghori bod y maes hwn o waith i'w wneud fel sefydliad ac felly bydd y maes hwn yn cael ei ystyried ymhellach yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

3.6 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud orau a pha feysydd sydd angen eu gwella ac sydd angen eu datblygu ymhellach.

3.7 Mae Rheolwr Cofrestredig y Gangen (RM) wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac, ar hyn o bryd, mae'n rheoli mwy nag un gwasanaeth.

## 4 . **<u>Canfyddiadau</u>**

4.1.1 <u>Cynllunio Gofal a Gwasanaethau</u>

4.1.2 Mae Abacare, fel llawer o ddarparwyr, wedi trosglwyddo dogfennaeth i gofnodion electronig. Mae'r darparwr yn defnyddio system o'r enw Cynllunio Mynediad at Ofal ac mae'r holl gofnodion bellach yn cael eu cofnodi'n electronig gan y gofalwyr, h.y. Cynlluniau Gofal, Adolygiadau, Cofnodion Dyddiol, Cofnodion Gweinyddu Meddygol, gofalwyr yn arwyddo i mewn/allan.

4.1.3 Yn ystod y broses fonitro, edrychwyd ar dair ffeil gofal unigol. Ni welwyd bod gan yr un o'r tair ffeil yn cynnwys asesiadau cychwynnol manwl. Trafodwyd hyn gyda Ms Price a Ms Jeffries, a dywedodd y ddwy eu bod yn dechrau Cynllun Gofal Personol llawn unwaith y bydd pecyn gofal wedi'i dderbyn gan yr Awdurdod Lleol; felly, nid oes asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau.

4.1.4 Arsylwyd amserlenni dewis unigol o amseroedd galw ym mhob un o'r tair ffeil.

4.1.5 Gwiriwyd y Cynlluniau Personol yn erbyn cynllun cychwynnol Gofal a Chymorth CBSC ac roedd yr holl dasgau a nodwyd wedi'u trosglwyddo. Roedd gan bob un o'r 3 ffeil ddogfennaeth gryno, sy'n rhoi cefndir sylfaenol o'r unigolion a pha gymorth sydd arnynt ei angen.

4.1.6 Fel y crybwyllwyd, mae'r darparwr wedi symud o Gynlluniau Personol ysgrifenedig ac mae'r holl ddogfennaeth bellach yn electronig. Mae hyn yn galluogi'r holl gynlluniau i fod yn gyson ac yn ddarllenadwy, gan sicrhau bod pob agwedd ar ofal a chymorth yn cael ei chynnwys yn y ddogfennaeth.

4.1.7 Canfuwyd bod y Cynlluniau Personol yn fanwl, yn amlinellu ble y gellir lleoli'r unigolyn yn yr eiddo ar ôl cyrraedd, hoff/ chas bethau, manylion am allu'r unigolyn a'r hyn y gellir ei gyflawni'n annibynnol, sut i fynd at yr unigolyn, sut i ddarparu cymorth priodol ac ati. Felly, byddai dogfennau manwl o'r fath yn cefnogi gofalwr newydd a gofalwr na fyddai fel arfer yn cefnogi'r unigolyn.

4.1.8 Roedd gan bob un o'r 3 ffeil ddogfen gryno, a gwelwyd ei bod yn fanwl iawn. Roedd y ddogfen yn amlinellu gwybodaeth gefndir yr unigolion h.y. teulu, anifeiliaid anwes, cyflogaeth yn y gorffennol, cyfathrebu, neu os eos gorchymun 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' (DNACPR) yn ei le neu beidio, os oes atwrneiaeth ar waith, bwyta/maeth, crefydd, cyfanrwydd croen, symudedd, cymdeithasu ac ati.

4.1.9 O'r 3 ffeil yr edrychwyd arnynt, roedd 1 wedi'i llofnodi gan berthynas, tra nad oedd y 2 arall; fodd bynnag, roedd y rheswm dros beidio â llofnodi wedi'i ddangos ar y ddau gynllun.

4.1.10 Ar gyfer y 3 ffeil yr edrychwyd arnynt, gwelwyd tystiolaeth bod unigolion yn cael eu cefnogi gan eu priod a Gweithiwr Cymdeithasol yn ystod yr adolygiadau 3 mis. Yn ystod y broses adolygu, bydd y swyddog adolygu yn gofyn sawl cwestiwn er mwyn cael adborth ar lefel y gwasanaeth a dderbynnir gan y cwsmer h.y.
Ydych chi'n teimlo'n ddiogel? Ydych chi'n teimlo'n gysylltiedig? Ydych chi'n teimlo bod gennych reolaeth? ac ati. Mae unrhyw offer a ddefnyddir yn yr eiddo hefyd yn cael ei wirio ac ar ddiwedd y broses adolygu, mae'r gwasanaeth yn cael sgôr o 1-10.

4.1.11 Edrychwyd ar Asesiadau Risg a oedd ar ffeil lle'r oedd angen am gymorth perthnasol.

4.1.12 Mae'r cofnod dyddiol electronig yn rhoi rhestr i'r staff o'r cymorth sydd ei angen ar unigolion, hyd yn oed meddyginiaeth (os ydynt yn cynorthwyo gyda hyn). Mae yna hefyd ardal testun rhydd i staff gofnodi materion o bwys. Trafodwyd gyda Rheolwr y Gangen, ar gyfer 2 o'r 3 ffeil yr edrychwyd arnynt fod cynlluniau personol yn cyfeirio at arsylwi cywirdeb croen, felly; mae angen rhoi mwy o wybodaeth yn yr ardal testun rhydd, o ran sut mae staff yn monitro cyfanrwydd croen. Gellid cynnwys rhagor o wybodaeth hefyd am hwyliau’r unigolyn a’i gyflwyniad wrth gyrraedd ac ati.

4.1.13 Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod pob un o'r 3 unigolyn yn derbyn gofalwyr a oedd yn bodloni'r trothwy parhad gofalwr.

4.2 <u>Perfformiad Gwasanaeth</u>

4.2.1 Gyda'r system monitro galwadau electronig (ECM) ar waith, mae gofalwyr yn defnyddio ffonau symudol i fewngofnodi ac allan o alwadau.

4.2.2 Os bydd gofalwr yn hwyr i alwad, anfonir rhybudd i'r swyddfa, lle bydd goruchwyliwr yn mynd ar drywydd y rhybudd ac yn cysylltu â'r gofalwr i holi'r rheswm dros fod yn hwyr, bydd hyn yn ei dro yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer. Rheolir hyn gan y swyddfa o 09:00-17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae rhybuddion ar ôl 17:00 o'r gloch yn cael eu rheoli a'u gweithredu gan y tîm y tu allan i oriau.

4.2.3 Cymharwyd amseroedd galwadau wedi’u trefnu ag amseroedd galwadau gwirioneddol 3 unigolyn dros gyfnod o bythefnos. Roedd Slotiau Galwadau, a arsylwyd, wedi'u hamserlennu'n bennaf mor agos â phosibl at yr amseroedd a ffefrir gan yr unigolyn. Fodd bynnag, sylwyd bod rhai 30-45 munud yn ddiweddarach. Cofnodwyd bod rhai galwadau o dan yr amser a neilltuwyd, tra aeth rhai drosodd. Felly, wrth archwilio amseroedd galwadau a hyd galwadau, atgoffir y darparwr i gysylltu â'r Awdurdod Lleol pe bai angen amser ychwanegol neu os teimlir y gellid lleihau'r amser a neilltuwyd. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r cofnodion dyddiol.

4.3 Ffeiliau, Hyfforddiant a Goruchwyliaeth Staff

4.3.1 Edrychwyd ar dair ffeil bersonél yn ystod yr ymweliad. Roedd dwy ffeil ar gyfer aelodau o staff a oedd yn rhan o’r broses TUPE ( *Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth))* o'r busnes blaenorol Allied Health Care i Abacare, gydag un ffeil yn aelod o staff sydd newydd ei recriwtio.

4.3.2 Ar gyfer y 2 ffeil TUPE, nid oedd gan yr un o'r ddwy swydd ddisgrifiad yn ymwneud â dyletswyddau a chyfrifoldebau yn ymwneud ag Abacare.

4.3.3 Roedd gan bob un o'r tair ffeil Gontract Cyflogaeth wedi'i lofnodi, llun o'r aelod o staff, gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac ni nodwyd unrhyw faterion.

4.3.4 Er nad oedd unrhyw gofnod o gyfweliadau ar gyfer y ddau aelod o staff y bu iddynt drosglwyddo drwy’r broses TUPE, edrychwyd ar un broses gyfweld ar gyfer yr aelod staff a oedd newydd ei recriwtio. Roedd y broses gyfweld yn cynnwys cwestiynau amrywiol gyda'r sawl a oedd yn cyfweld yn defnyddio system sgorio.

4.3.5 Ni nodwyd unrhyw fylchau cyflogaeth yng nghais yr aelodau staff newydd. Ar adeg yr ymweliad roedd gan yr aelod newydd o staff ei ddogfennaeth ymsefydlu; a dywedwyd wrth y swyddog ymweld bod y gofalwr yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster ac y bydd wedyn yn cael ei gefnogi i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwelwyd bod y ddau aelod o staff TUPE wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

4.3.6 Mae Abacare yn darparu cymorth parhaus i staff sydd newydd eu penodi i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n ofynnol.

4.3.7 Mae'r darparwr yn defnyddio hapwiriadau ar staff i sicrhau cymhwysedd a hefyd i wirio agweddau eraill megis hunaniaeth, gwisg, a ddilynwyd y cynllun personol, prydlondeb ac ati.

4.3.8 Mae staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rôl gan gymysgedd o oruchwyliaeth, hapwiriadau a chyfarfodydd tîm.

4.3.9 Edrychwyd ar Fatrics Hyfforddiant Staff a oedd yn nodi bod mwyafrif y staff wedi mynychu cyrsiau gorfodol priodol, h.y. diogelu, codi a chario, meddyginiaeth, rheoli heintiau, hylendid bwyd. Roedd y matrics hefyd yn nodi staff y mae angen adnewyddu eu hyfforddiant.

4.3.10 Darperir hyfforddiant nad yw'n orfodol hefyd h.y gofal Cathetr, Dementia, Diabetes, Urddas a Pharch, Cydraddoldeb a llawer o rai eraill.

4.3.11 Dywedodd Rheolwr y Gangen y gellir tynnu adroddiad o'r system pryd bynnag y bo angen. Fodd bynnag, bob dydd Llun, mae'r brif swyddfa yn cynhyrchu adroddiad ar gyfer Rheolwr y Gangen, yn amlygu pa hyfforddiant sydd ei

angen ac ar gyfer pa aelod o staff. Defnyddir system goleuadau traffig i amlygu hyfforddiant sy'n hwyr a'r hyfforddiant sydd i ddod.

4.3.12 Gwelwyd Matrics Goruchwylio Staff. Mae'r matrics yn defnyddio proses fel goleuadau traffig ac yn amlygu pa oruchwyliaeth sydd wedi'i chynnal a phryd y disgwylir iddo ddigwydd nesaf. Yn ystod yr oruchwyliaeth, gofynnir i staff a ydynt yn hapus gyda'u horiau gwaith presennol ac a hoffent gael contract oriau gwarantedig.

4.4 Adborth gan Gwsmeriaid

4.4.1 Ffoniwyd 3 cwsmer/cynrychiolydd o Abacare i gasglu adborth ar y gwasanaeth a gawsant. Gofynnwyd i'r cwsmeriaid beth oedd yn bwysig iddynt am y gwasanaeth y maent yn ei gael, a bu iddynt ateb eu bod yn dymuno cael gofalwyr rheolaidd, aros yn annibynnol, cynnal eu hylendid personol a'u hiechyd.

4.4.2 Roedd pob un o'r 3 unigolyn y cysylltwyd â nhw yn canmol y staff gofal, gan nodi bod y staff yn "ardderchog, maen nhw'n canu gyda hi", "maen nhw'n ei chadw hi'n dawel", "mae'r achubiaeth hon mor bwysig, mae'r staff yn wych", "Ni allwn ymdopi hebddyn nhw", "Gwych, maen nhw'n gwybod ein bod ni'n eu gwerthfawrogi". Dywedodd pob unigolyn a gymerodd ran yn y broses o ddarparu adborth eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas.

4.4.3 Dywedodd 1 unigolyn wrth y swyddog monitro bod y staff arferol yn aros am yr amser cywir, fodd bynnag, os yw'r tîm yn newydd, nid yw'r staff bob amser yn aros am yr amser sydd wedi'i neilltuo.

4.4.5 Gofynnodd 1 unigolyn am amser mwy cyson wrth ymgymryd â chymorth domestig (trefniant preifat) a chafodd hyn ei adrodd yn ôl i Reolwr y Gangen.

4.4.6 Ar y cyfan, roedd yr adborth a ddarparwyd yn gadarnhaol o ran y gofal a ddarparwyd: a phe bai unrhyw broblemau, mae'r swyddfa'n ymdrechu i ddatrys materion i'r cleient.

## 5 Cyffredinol

5.1 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae 12 aelod o staff Abacare wedi gadael eu swydd. Roedd amryw o resymau am hyn h.y salwch, dilyn gyrfa wahanol, gofal plant, ymddeoliad ac ati.

5.2 Fel gyda phob darparwr gofal, mae gwaith gweithredol yn parhau gan Abacare i gyflogi staff gofal newydd ac mae'r darparwr yn parhau i weithio tuag at gadw aelodau o staff.

5.3 Ym mis Gorffennaf 2022, enwebwyd 5 gweithiwr gofal ar gyfer Gwobrau Arwyr Gofal. Enillodd un gofalwr wobr Gweithiwr Gofal y Flwyddyn, gyda 3 aelod o staff yn cyrraedd y 3 olaf yn y categori Tîm Gofal y Flwyddyn. Enwebwyd aelod o staff swyddfa hefyd ar gyfer Cydlynydd Gofal y Flwyddyn.

5.4 Yn ystod yr ymweliad cychwynnol, nododd Rheolwr y Gangen yn falch hefyd y nifer o gardiau 'Diolch' a dderbyniwyd gan y tîm.

**6. Camau Union a Datblygiadol**

6.1 Unioni

6.1.2 Dylid cadw disgrifiadau swydd ar ffeiliau staff, gan gynnwys y rhai sydd wedi dod i ben yn 2018. Rheol 38 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

6.1.3 Adolygiadau i gofnodi pwy a pha ddogfennaeth a chwaraeodd ran yn y broses. Rheol 16 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

6.1.4 I alwadau fod mor agos at yr amserau a ffefrir gan yr unigolion â phosibl. Rheol 14 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

**6 .2** Datblygiadol

6.2.1 I'r Unigolyn Cyfrifol rannu'r Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddaru gyda'r Awdurdod Lleol unwaith y bydd y cofrestriad wedi'i gadarnhau.

6.2.2 Nodiadau dyddiol i gynnwys mwy o fanylion h.y cyflwr y croen (os yw'r unigolyn wedi cydnabod materion cyfanrwydd croen), hwyliau a chyflwyniad yr unigolyn.

6.2.3 Bod staff yn fwy ystyriol o'r derminoleg a ddefnyddir wrth ddisgrifio'r camau a gymerwyd.

6.2.4 I Reolwr y Gangen rannu unrhyw adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gyda'r Tîm Comisiynu (Awdurdod Lleol).

**7.** Casgliad

7.1 Braf oedd cael adborth da gan unigolion sy'n cael y gwasanaeth yn y gymuned a bod ganddynt berthynas dda gyda'r gofalwyr.

7.2 Bydd ymweliad monitro arall â'r swyddfa yn cael ei gynnal ymhen tua 12 mis oni bai y pennir bod angen ei gynnal ymlaen llaw.

7.3 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau achub ar y cyfle hwn i ddiolch i staff Abacare am eu hamser a'u lletygarwch yn ystod yr ymweliad.

**Awdur:** Caroline Roberts
**Swydd:** Swyddog Monitro Contractau
**Dyddiad:** Mawrth 2023

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd pe baent yn gofyn am ei weld.